# Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

CGC(4) Papur 5 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol 6 Rhagfyr 2007- 31 Mawrth 2008**

## 1. Diben

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn crynhoi casgliadau gwaith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn ystod blwyddyn ariannol 2007-2008. Mae'r Adroddiad, a ddarparwyd i'r Comisiwn ac i'r Swyddog Cyfrifyddu, wedi'i amseru i gefnogi gwneud yn derfynol y cyfrifon a'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol.

## 2. Cefndir

Yn 2006 cytunodd y Comisiwn Cysgodol ar bapur oedd yn amlinellu egwyddorion llywodraethu corfforaethol gan gynnwys rheolaethau mewnol. Yr oedd y papur yn nodi y dylai Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gael ei sefydlu, gydag o leiaf dri aelod ac yn cael ei gadeirio gan gynghorydd annibynnol ac y dylai'r pwyllgor gael ei sefydlu a gweithredu yn unol ag egwyddorion a nodir yn Llawlyfr y Pwyllgor Archwilio.

Ym mis Mehefin 2007 cytunodd Comisiwn y Cynulliad ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer y pwyllgor a welir yn atodiad 1.

Penodwyd aelodau annibynnol y pwyllgor, yn cynnwys y Cadeirydd, trwy broses recriwtio gystadleuol. Yr aelodau ym 2007/2008 oedd:

Richard Calvert (Cadeirydd)
Tim Knighton
Yr Athro Robert Pickard
William Graham AC

Mynychir cyfarfodydd y Pwyllgor gan y Prif Weithredwr/ Swyddog Cyfrifyddu ac eraill trwy wahoddiad. Darperir gwasanaethau ysgrifenyddiaeth gan Uned Gorfforaethol Comisiwn y Cynulliad.

## 3. Cyfrifoldebau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu ar:

- Y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu a'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol;
- Y polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon, ac adroddiad blynyddol y Comisiwn, yn cynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, faint o gamgymeriadau a nodir, a'r llythyr rheoli i'r Archwiliwr Cyffredinol;
- Y gweithgaredd a gynlluniwyd a chanlyniadau archwilio mewnol ac archwilio allanol;
- Digonolrwydd ymateb rheolwyr i faterion a ddynodwyd gan weithgaredd archwilio, yn cynnwys llythyr rheoli'r archwilwyr allanol oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru;
- Sicrhad mewn perthynas â'r gofynion llywodraethu corfforaethol ar gyfer y Comisiwn;
- Cynigion ar gyfer tendro ar gyfer gwasanaethau Archwilio Mewnol neu ar gyfer prynu gwasanaethau ar wahân i wasanaethau archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio;
- polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

## 4. Perfformiad y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

Cynhaliodd y Pwyllgor ei gyfarfod cyntaf ar 6 Rhagfyr 2007 ac yn unol â'r rhaglen waith a gytunwyd cynhaliodd gyfarfod pellach ar 7 Chwefror 2008. Cynhaliodd Cadeirydd y Pwyllgor gyfarfod preifat â'n harchwilwyr mewnol, RSM Bentley Jennison. Cyfarfu hefyd â'r Swyddog Cyfrifyddu, a gydag aelodau o staff eraill, a mynychodd gyfarfod o Gomisiwn y Cynulliad lle y cyflwynodd adroddiad ar gynnydd a wnaethpwyd gan y pwyllgor. Gellir crynhoi gweithredoedd y pwyllgor yn y cyfnod hwn dan y penawdau canlynol:

### Rheoli Risg

Derbyniodd y pwyllgor adroddiadau gan y Swyddog Cyfrifyddu a Phennaeth y Gwasanaethau Ariannol ar y dull gweithredu gyda golwg ar reoli risg. Yr oedd Penaethiaid Gwasanaethau trwy'r sefydliad wedi'u cynnwys mewn gwaith i ddatblygu cofrestr risg arwyddocaol. Rhoddodd y pwyllgor gyngor y dylid bwrw ymlaen gyda'r gwaith hwn cyn gynted ag sy'n bosibl a phwysleisiodd bwysigrwydd y ffaith bod y gofrestr yn dod yn ddogfen fyw gan fod risgiau yn newid yn barhaus.

### Sicrwydd Rheolaeth Fewnol

Cymeradwyodd y Pwyllgor y dull a ddefnyddiwyd i baratoi'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol oedd yn cynnwys asesiad cyfamserol i roi sicrwydd:

a. bod y blociau sylfaen a ddynodwyd gan y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol wedi'u sefydlu;
b. bod y polisïau a'r safonau sy'n cefnogi'r rhain yn wybyddus i'r rhai sydd mewn swyddi rheoli a'u bod yn cael eu trosglwyddo trwy'r sefydliad;
c. bod busnes y Comisiwn yn cael ei reoli'n effeithiol.

Nododd y Pwyllgor byddai cynnwys data mesurol yn ogystal â data ansoddol, er enghraifft mewn cysylltiad ag adnoddau dynol neu berfformiad ariannol, yn rhoi manwl gywirdeb ychwanegol wrth asesu perfformiad.

**Archwilio Mewnol / allanol**

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau ar archwilio mewnol ac allanol ar gyfer 2006/2007 ac ar gyfer archwilio mewnol hyd yma yn ystod 2007/2008 a nododd y negeseuon cyffredinol gadarnhaol a gafwyd amdanynt. Yr oedd y pwyllgor yn fodlon gyda'r cynnydd a wnaethpwyd i fwrw ymlaen gyda'r argymhellion a wnaethpwyd yn yr adroddiadau archwilio mewnol oedd yn cynnwys;

- Dilyn ymlaen o archwiliad 2006/2007
- Y gyflogres ac Adnoddau Dynol
- Rheolaethau Ariannol Allweddol.

Rhoddodd y pwyllgor gyngor ar y rhaglen archwilio mewnol arfaethedig ar gyfer 2008/2009. Gofynnodd y pwyllgor a oedd y swm o adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer archwilio mewnol yn ddigonol a bydd yn cadw golwg ar hyn yn ystod y flwyddyn ariannol 2008/2009.

**Rhaglen Gwaith Craidd**

Gan ddefnyddio Llawlyfr y Pwyllgor Archwilio a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi fel sail cytunodd y pwyllgor ar flaenraglen waith oedd yn cynnwys cyfarfod ychwanegol i'w gynnal ym mis Gorffennaf i roi cyngor ar lofnodi'r set gyntaf o ddatganiadau ariannol llawn, y Datganiad Rheolaeth Mewnol derfynol ac i ystyried yr Adroddiad ISA 260.

**Casgliad**

Gan fod y pwyllgor wedi'i ffurfio yn Rhagfyr 2007 a'i fod wedi cynnal dau gyfarfod yn unig yn y flwyddyn ariannol, yr oedd yn canolbwyntio i gychwyn ar sefydlu trosolwg o'r amgylchedd risg a rheolaeth o fewn y Comisiwn. Yn seiliedig ar dystiolaeth archwilio mewnol ac allanol, a thystiolaeth staff y Comisiwn, barn y pwyllgor yw bod systemau cyfredol yn darparu lefel sicrwydd boddhaol, ac yn wir maent yn dangos cynnydd da ers sefydlu'r Comisiwn fel corff ar wahân.

Ar yr un pryd sylweddolodd y pwyllgor fod llawer o systemau allweddol, er enghraifft mewn cysylltiad â rheoli risg, yn parhau i fod yn newydd iawn. Sylweddolodd y pwyllgor hefyd fod y Comisiwn, yn gywir iawn, wedi gosod safonau a disgwyliadau uchel iddo'i hunan mewn perthynas â risg a rheolaeth. Mae'r ddau ffactor hyn yn pwyntio at bwysigrwydd ymdrechion parhaus yn ystod y flwyddyn sydd i ddod i fewnosod a chryfhau ymhellach y ddwy system hyn a'r diwylliant sefydliadol mewn cysylltiad â risg a rheolaeth; a dylai rhaglen waith y pwyllgor ei alluogi i ddarparu cefnogaeth a her i'r Comisiwn wrth iddo fwrw ymlaen gyda'i waith yn y maes hwn.

**Richard Calvert, Cadeirydd, Cynghorydd Annibynnol**
**Tim Knighton, Cynghorydd Annibynnol**
**Yr Athro Robert Pickard, Cynghorydd Annibynnol**
**William Graham AC, Comisiynydd ar gyfer Adnoddau'r Cynulliad**